**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 24ain Mawrth 2004**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

COPIAU ATODIADAU AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 24 Mawrth 2004**
**Eitem: 3**

# MATERION GORFODI

**ENF/2003/02**

**ENF/2003/42**

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

COPIAU ATODIADAU AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# AWDURDODIADAU'R PWYLLGOR GORFODAETH
# ADRODDIAD ADOLYGIAD ACHOS
# Mawrth 2004

**Mae'r achosion hyn wedi'u hadrodd i'r Pwyllgor o'r blaen ond yn aros heb eu penderfynu. Pwrpas yr Adroddiad yw darparu diweddariad byr chwarterol ar gyfer Aelodau. Mae'n well codi unrhyw faterion ynghylch manylion gyda'r Swyddogion cyn neu ar ôl y Pwyllgor.**

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/292/97/S<br>P7/521 | Voel Las, Eryrys | 26/11/97 | Newid lefelau'r tir heb awdurdod | Cyflwynwyd rhybudd, ni dderbyniwyd unrhyw apêl. Dyddiad cydymffurfio: 09 / 04 / 99.<br>Y rhan fwyaf o'r gwaith oedd ei angen yn ôl y rhybudd wedi'i gwblhau. Gwaith adeiladu'n dal i fynd ymlaen ar yr anheddle sydd wedi'i gymeradwyo felly nid yw'r datblygiad yn gyflawn. | Cyflwynwyd Rhybudd Tramgwydd Cynllunio ar 9 Chwefror 2004 ynghylch y rheidrwydd i gwblhau'r gwaith a nodir yn y Rhybudd yn ogystal â thoriadau eraill o reolaeth cynllunio ar y safle hon. |
| ENF/037/95/N<br>P13/11 | Rhydorddwy Goch, Ffordd Dyserth, y Rhyl | 28/10/98 | 31 o ffenestri mewn adeilad rhestredig heb awdurdod. | Cyflwynwyd rhybudd, gwrthodwyd yr apêl. Dyddiad cydymffurfio: 19 / 10 / 00 felly mae tor.<br>Gosodwyd 4 ffenestr newydd a ystyrir yn dderbyniol.<br>27o ffenestri'n dal ar ôl ond wedi'u paentio'n wyn erbyn hyn. Cyflwynwyd cais i gadw'r ffenestri wedi'u paentio. | Adroddir ar y cais am ganiatâd adeilad rhestredig i gadw'r ffenestri wedi'u paentio i'r Pwyllgor Cynllunio ar 24 Mawrth 2004.<br><br>Pe ceid caniatâd yna bydd gofynion y Rhybudd wedi'u goddiweddyd (cyn belled ag y bydd Cadw hefyd yn cymeradwyo).<br>Os gwrthodir y cais bydd angen gweithredu ymhellach i sicrhau fod y ffenestri'n cael eu newid. |

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/006/97/S<br>P13/8 | Coetsiws a Stablau Lleweni, Parc Lleweni, Dinbych | 27/10/99 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Dim datblygiad heb awdurdod ond diffyg gofal o adeilad rhestredig Gradd 2*.<br>Bu farw'r perchennog.<br>Mae'r safle i'w gwerthu a rhagwelir y cwblheir y gwerthiant fis Ebrill 2004. | Aros am gyngor y Swyddogion Cadwraeth ynghylch beth ddylid ei wneud ac a all gorfodaeth cynllunio fod o gymorth i ddatrys y mater. Efallai y daw'r mater i ben ar ôl gwerthu.<br>Cadw golwg ar y sefyllfa. |
| ENF/001/96/N<br>P13/6 | The Barn, Fferm Esgobty, Ffordd Dinbych Uchaf, Llanelwy | 27/10/99 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Disgynnodd yr ysgubor tra'r oedd y perchennog yn ymgymryd â mân waith cynnal a chadw y gofynnwyd amdano gan Rheoli Adeiladu i ddiogelu'r strwythur. Dywedwyd wrth Cadw.<br><br>Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig i ddymchwel yr adeilad er mwyn rheoleiddio'r mater mewn ymdrech i ddad-restru'r adeilad. Dim ymateb ffurfiol oddi wrth Cadw.<br><br>Derbyniwyd cais cynllunio yn ddiweddar i godi adeilad newydd ar gyfer 2 uned drigiannol | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i brosesu ceisiadau yn ddibynnol ar ymateb Cadw.<br><br>Dim goblygiadau gorfodaeth cynllunio os ceir y caniatâd angenrheidiol. |
| ENF/001/99/N<br>P13/5 | Elwy Bank, Stryd Fawr, Llanelwy | 09/05/00 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Dim datblygiad heb awdurdod dim ond diffyg gofal o adeilad rhestredig. Y perchennog yn gweithio yn y cyfamser i wella sefydlogrwydd y strwythur, tra'n trafod gyda Rheoli Adeiladu. Mae'n gobeithio y bydd y | Anfonwyd llythyr at y perchennog (gyda chopïau at bawb â diddordeb) yn gofyn am fanylion amserlen a gytunwyd ar gyfer y gwahanol waith i wella ymddangosiad allanol a gwaith strwythurol mewnol.<br><br>Swyddogion i gael y murluniau wedi'u |

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sgaffaldiau i lawr erbyn diwedd y Gwanwyn. Cyfarfod yn ddiweddar gyda Swyddogion, Aelod Ward Lleol a chynrychiolwyr o'r Cyngor Tref i gytuno ar strategaeth ynghylch yr adeilad a'r murluniau. | harchwilio i sefydlu eu cyflwr a chostau tynnu / adnewyddu ond efallai y bydd raid gwneud hyn ar ôl trafod ymhellach gyda'r perchennog sy'n dymuno cadw'r murluniau |
| ENF/127/00/S<br>P13/13 | 7 Railway Terrace, Rhuthun | 28/06/00 | Ffenestri uPVC a drws mewn Adeilad Rhestredig<br><br>. | Cyflwynwyd rhybudd, ni dderbyniwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 27/04/02 felly mae tor.<br>Cytunodd y perchennog newydd i gyflwyno cais am ffenestri newydd. Cais heb ei dderbyn. | Cyflwynwyd Rhybuddion Adran 330 eto i sicrhau manylion yr unigolyn / unigolion neu bartïon gyda diddordeb yn yr eiddo.<br><br>Bydd Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn cyfarwyddo'r Gwasanaeth Cyfreithiol i erlyn y perchennog am beidio â chydymffurfio â'r Rhybudd. . |
| ENF/434/99/N<br>LB1 – P7/552<br>LB2 – P7/553<br>LB3 – P7/555<br>LB4 – P7/554 | 4 Cilan ar yr A55 yn Rhuallt | 28/03/01 | Gosod unedau arlwyo symudol a mân werthu oddi ar ar Dir y Goron | Cyflwynwyd 4 Rhybudd, gwrthodwyd yr apeliadau. Dyddiad cydymffurfio: 02/05/03.<br>Cododd Llywodraeth Cynulliad Cymru arwyddion yn y 4 cilan a chodwyd ffensys 'dim gwerthu' ar 2 gilan.<br>Pob un o'r unedau parhaol wedi'u symud erbyn hyn.<br>Mae un gilan yn dal i gael ei defnyddio'n rheolaidd yn ystod y dydd gan uned sy'n cael ei symud yno'n ddyddiol. Mae toiled 'portaloo' yno'n barhaol a chodir baneri pan fo'r uned yn gwerthu. | Adroddwyd i Aelodau mewn Pwyllgor Cynllunio fis Rhagfyr fel achos Dim Gweithredu Pellach.<br><br>Aelod lleol yn bryderus fod masnachu'n dal ar y safle ac ynghylch y 'portaloo' a'r baneri.<br><br>Archwiliwyd y safle a hysbyswyd y gweithredydd o'r tor ac y gellid dwyn achos gorfodaeth.<br><br>Cadw golwg ar y safle. |

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/133/00/S<br>P7/560 | Llyn Cyfynwy, Fferm Lake Hill, Llandegla | 25/07/01 | Carafan uned ddwbl drigiannol | Cyflwynwyd rhybudd, ni dderbyniwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 31/10/02 felly mae tor. Mae'r Apeliwr wedi symud i dy cyngor.<br>Y garafán heb ei symud yn ôl gofynion y rhybudd Gorfodaeth ac mae cyhuddiadau fod y perchennog wedi dychwelyd i fyw yn y garafán. | Cyflwynwyd Rhybudd Tramgwydd Cynllunio i'r perchennog i sefydlu a yw'r garafán yn cael ei defnyddio eto at ddibenion trigiannol.<br><br>Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gadw golwg ar y safle ynghylch defnydd o'r garafán a sicrhau un ai fod y garafán yn cael ei symud neu fod y sefyllfa'n cael ei rheoleiddio'r drwy gyflwyno cais cynllunio am ei chadw fel swyddfa / storfa yn gysylltiedig â defnydd pysgodfa sydd wedi derbyn caniatâd. |
| ENF/2001/004<br>P7/564<br><br>ENF/2003/0016<br>P7/601<br><br>ENF/2003/0015<br>P2/43 | 208 Stryd Fawr, Prestatyn | 25/07/01<br><br>23/04/03<br><br>23/04/03 | Gosod caeadau rholio mewn Ardal Cadwraeth<br><br>Codwr stôl heb awdurdod ar wyneb siop mewn Ardal Gadwraeth<br><br>Arwydd wedi'i oleuo ar wyneb mewn Ardal Gadwraeth | Cyflwynwyd rhybudd, barnwyd nad oedd yr apêl yn ddilys. Dyddiad cydymffurfio: 21 / 02 / 02.<br>Mae tor o'r Rhybudd erbyn hyn.<br>Cafwyd achos Llys. Ple o ddieuog, ar sail Iawnderau Dynol. Bu'r achos ar 13 / 02 / 04.<br>Cafwyd y diffynnydd yn ddieuog ar sail technegol ynghylch cyflwyno'r rhybudd.<br>Cyflwynwyd rhybudd. Ni dderbyniwyd apêl, mae tor.<br>Cafwyd caniatâd i erlyn ynghylch yr arwydd heb awdurdod. Yr arwydd yn dal yn ei le.<br>Cynhaliwyd yr achos ar 13 / 02 / 04 gyda'r caeadau rholio.<br>Cafwyd y diffynnydd yn euog ac fe'i dirwywyd £500 gyda £300 o gostau. | Gwasanaethau Cyfreithiol i gael eu cyfarwyddo i ail gyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i bawb sydd â diddordeb yn yr eiddo.<br><br>Cynllunio i sicrhau fod prawf y cyflwynwyd y rhybudd. |

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2001/005<br>P7/565 | 'Patina', 204 Stryd Fawr, Prestatyn | 25/07/01 | Gosod caead rholio mewn ardal Gadwraeth | Cynhaliwyd achos ar 13 / 02 / 04 a chafwyd y diffynydd yn ddieuog ar sail technegol ynghylch cyflwyno'r rhybudd. | Fel yr uchod |
| ENF/2002/007<br>P7/568 | Ty Isoe, Maes Maelor, Llandegla | 30/01/02 | Cadw cerbydau a defnydd trigiannol | Cyflwynwyd rhybudd, gwrthodwyd yr apêl.<br>Dyddiad cydymffurfio: 01 / 04 / 04. | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gadw golwg ar y dyddiad cydymffurfio a chysylltu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd sydd hefyd yn dwyn achos. |
| ENF/2002/005<br>P7/573 | Bryn Eglur, Llanrhaeadr | 27/02/02 | Estyniad i anheddle | Cyflwynwyd rhybudd. Tynnwyd yr apêl yn ôl.<br>Dyddiad cydymffurfio 02 / 12 / 03.<br>Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ôl hynny fel cyfaddawd. | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gadw golwg ar y datblygiadau a chydymffurfiad. Hysbyswyd y perchennog o bopeth sydd raid iddo eu gwneud. |
| ENF/2002/025<br>P7/580 | 115 Coast Road, y Rhyl | 26/06/02 | Defnydd cymysg, trigiannol a gwerthu ceir | Gwrthodwyd cais ôl weithredol a chyflwynwyd rhybudd.<br>Gwrthodwyd apêl. Ymestynnwyd y dyddiad cydymffurfio tan 29 / 12 03.<br><br>Mae'r perchennog wedi torri gofynion y rhybudd. | Hysbyswyd y perchennog yn ffurfiol o oblygiadau torri gofynion y Rhybudd.<br><br>Delir i gadw golwg ar y safle. |
| ENF/2002/021<br>P7/351 | Cornel Bach, Ffordd Dinbych Isaf, Llanelwy | 04/09/02 | Lleoli carafan a chreu cwrtil | Gwrthodwyd cail ôl weithredol a chyflwynwyd rhybudd.<br>Cafodd apêl ei chaniatáu am gyfnod dros dro tra bo rhieni gwael eu hiechyd yno. Mae gofyn plannu rhagor o goed i helpu i guddio'r garafán. | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gadw golwg a sicrhau fod coed yn cael eu plannu a bod y garafán yn cael ei symud unwaith mae'r rhieni gwael eu hiechyd wedi gadael. |

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2002/033<br>P7/588 | Chester House, 32 Sussex Street, y Rhyl (Chaplins) | 04/09/02 | Gosod arwydd ar wyneb mewn Ardal Gadwraeth | Arwydd yn cael ei ddangos mewn Ardal Gadwraeth gyda chaniatâd cyfrifedig ond a ystyrir yn annerbyniol, nid leiaf gan ei fod yn amgáu dodrefn stryd.<br>Swyddog Prosiect THI a Swyddogion Cynllunio'n trafod gyda'r perchnogion i annog gwella'r arwydd a'r eiddo. | Trafodaethau'n parhau a Swyddog Cydymffurfiad (THI – y Rhyl) mewn swydd i gydlynu'r gwaith. Dim gweithredu ar hyn o bryd. |
| ENF/2002/017<br>P24/194 | 153 Stryd Fawr, Prestatyn | 04/09/02 | Wyneb siop uPVC mewn Ardal Gadwraeth | Cyflwynwyd rhybudd. Dyddiad cydymffurfio 21 / 01 / 04. | Trafodaethau ar y gweill gyda'r perchennog ynghylch manylion dyluniad a gorffeniad wyneb siop newydd ar gyfer cyflwyno cais cynllunio. Ni ddylid gweithredu ymhellach ar hyn o bryd. |
| 15/877/98/MA<br>P47/3 | Chwarel Maes y Droell, Graianrhyd | 30/10/02 | Cais ROMP heb ei benderfynu – cloddio'n parhau | Ysgrifennodd y Gwasanaethau Cynllunio ar gynrychiolydd cyfreithiol perchnogion y chwarel ar sail y farn a gafwyd oddi wrth Gwnsel a phenderfyniad Pwyllgor. | Disgwyl ymateb ffurfiol ar ran perchennog y chwarel. Anfon llythyr atgoffa ffurfiol. |
| ENF/2002/043<br>P7/592<br><br>ENF/2003/031<br>P7/592 | Cyn dir rheilffordd, Ty Draw, Bodfari | 18/12/02<br><br>23/07/03 | Cadw cerbydau rheilffordd a chyfarpar cysylltiedig<br><br>Ffens derfyn a llidiart dros 2m o uchder | Cyflwynwyd rhybudd a chafwyd gwrandawiad apêl mewn Ymchwiliad Cyhoeddus. Gwrthodwyd yr apêl. Y defnydd cadw i ddarfod a phob eitem i'w symud oddi ar y safle erbyn y dyddiad cydymffurfio: 03 / 04 / 04.<br><br>Cyflwynwyd rhybudd yn gofyn am symud y ffens mewn 3 mis. Dyddiad cydymffurfio: 26 / 03 / 04.<br>Darfu'r cyfnod apelio. | Cadw golwg o gofio am y dyddiad cydymffurfio.<br><br>Cadw golwg o gofio am y dyddiad cydymffurfio |

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2003/003<br>P2/42 | 34 Queen Street, y Rhyl (Dragon Boat) | 26/02/03 | Arwydd gyda golau neon heb awdurdod mewn Ardal Gadwraeth | Awdurdod i erlyn.<br>Arwydd mewn Ardal Gadwraeth. Tynnwyd yr arwydd â golau ar y wal a rhoi bwrdd heb olau yn ei le. Mae'r bocs ymwthiol â golau'n dal yn ei le.<br>Y perchennog yn trafod ynghylch gosod arwyddion derbyniol. | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gysylltu â'r perchennog ynghylch arwyddion newydd addas. |
| ENF/2003/009 | Pysgodfa Casgan, Llandegla | 23/07/03 | Defnydd trigiannol o garafán a chadw cerbydau | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod y defnydd yn darfod a'r cerbydau'n cael eu symud. Rhybudd drafft gyda Gwasanaethau Cynllunio. | Anfonwyd Rhybudd drafft at y Gwasanaethau Cyfreithiol sydd i'w gyflwyno fis Mawrth 2004. |
| ENF/2003/028 | Tir ger Uned 10, Parc Busnes HTM, Ffordd Abergele, Rhuddlan | 03/09/03 | Lleoli Carafán Sefydlog at Ddibenion Trigiannol | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod y defnydd trigiannol yn darfod a bod y garafán yn cael ei symud. Cyflwynwyd rhybudd gyda chyfnod o 18 mis ar gyfer cydymffurfio. Cyflwynwyd apêl ar sail cynrychiolaeth ysgrifenedig. | Disgwyl penderfyniad yr Arolygaeth Cynllunio. |
| ENF/2003/023 | 1 Stryd Berwyn, Llangollen | 01/10/03 | Gosod ffenestri uPVC ar eiddo mewn Ardal Gadwraeth | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod 2 ffenestr uPVC yn cael eu tynnu a bod ffenestri sash traddodiadol yn cael eu gosod yn eu lle. Cyflwynwyd rhybudd gyda 12 mis o gyfnod cydymffurfio. Aeth y cyfnod apêl heibio. | Cyflwynwyd cais ôl weithredol.<br><br>Cadw golwg o gofio am y dyddiad cydymffurfio (yn amodol ar y penderfyniad ar y cais cynllunio). |

| RHIF CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR | NODIADAU | GWEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2003/038 | 60 Ffordd Gronant, Prestatyn | 01/10/03 | Datblygiad ddim yn unol â'r hyn gafodd ganiatâd o dan ganiatâd cynllunio Côd Rhif 43/2001/1194/PF | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau newidiadau i ffenestr dormer i gydymffurfio â'r cynlluniau. Cyflwynwyd rhybudd gyda chyfnod cydymffurfio o 6 mis: 22 / 06 / 04. Aeth y cyfnod apêl heibio. | Cadw golwg o gofio am y dyddiad cydymffurfio<br><br>Rheoli Datblygu yn trafod gyda'r Asiant ynghylch cyflwyno cynllun diwygiedig. |
| ENF/2003/047 | 80 Marsh Road, y Rhyl | 29/10/03 | Codi ffens dros 1 metr ger priffordd | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau symud y ffens. Cyflwynwyd rhybudd â llaw ar 2 Mawrth 2003. Dyddiad cydymffurfio 5 / 07 / 04. Dal o fewn y cyfnod apêl. | Cadw golwg o gofio am y dyddiad cydymffurfio. |
| ENF/2003/029 | 27 Glasfryn, Henllan | 26/11/03 | Cadw ceir / tir blêr | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod y ceir yn cael eu symud. | Dim angen cyflwyno rhybudd gan fod y perchennog wedi cymryd camau i adfer.<br><br>Cedwir golwg ar y sefyllfa. |
| ENF/2003/039 | Tan y Graig, Nantglyn | 26/11/03 | Cadw ceir | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod y ceir yn cael eu symud. Rhybudd i'w ddrafftio. | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i ddrafftio Rhybudd ar ôl cael eglurhad ynghylch pwy piau'r tir. |
| ENF/2003/040 | Penrhydgoch, Nantglyn | 26/11/03 | Cadw ceir | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod y ceir yn cael eu symud. Rhybudd i'w ddrafftio. | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i ddrafftio Rhybudd ar ôl cael eglurhad ynghylch pwy piau'r tir. |
| ENF/2003/041 | Coral Spring, Ffordd Rhuthun, Llandegla | 26/11/03 | Defnyddio tir i gadw carafán a chadw ceir | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod y ceir yn cael eu symud. Rhybudd i'w ddrafftio. . | Gwasanaethau Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd i gyfarwyddo Gwasanaethau Cyfreithiol i ddrafftio Rhybudd. |
| ENF/2004/0007 | Gon Rite, Bachymbyd, Llanrhaeadr Y C. | 25/02/04 | Defnydd Trigiannol o Uned Symudol Barod a Defnyddio Tir yng Nghefn Gwlad at Ddefnydd Trigiannol | Awdurdodwyd gorfodaeth i sicrhau fod y defnydd trigiannol yn darfod ac i symud yr adeilad parod symudol. | Dim gweithredu ar hyn o bryd gan fod yr adeilad parod, symudol, wedi'i symud ond dal i gadw golwg ar y safle. |

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**24ain Mawrth 2004**
**EITEM AGENDA RHIF 5**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

**1.1** Hysbysu'r Aelodau o ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

## 2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE

**2.1** Ar ôl ymgynghori ag Adran Clerc y Sir, fe benderfynwyd mai **dydd Llun 29 Mawrth 2004** (yn y bore) sydd fwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi'i neilltuo'n amodol.

**2.2** Fe'ch hysbysir, felly, y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal ar **dydd Llun 29 Mawrth 2004**

## 3. AELODAETH Y PANEL YMWELD Â SAFLE

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol

## 4. ARGYMHELLIAD

**4.1** **Bod yr Aelodau'n cytuno fod yr Ymweliadau Safle'n cael eu cynnal ar dydd Llun 29 Mawrth 2004 (yn y bore)**

# Penderfyniadau a wnaed gan y Pennaeth Gweithredol Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd o dan Bwerau Dirprwyedig 1af - 29ain Chwefror 2004

## Eitem er gwybodaeth

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes dan bwerau dirprwyedig. Os ydych chi'n dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog fu'n ymwneud â'r cais os gwelwch yn dda.**

## MATHAU O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **CANIATÁU (GRANT)** | **- caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD (REFUSE)** | **- gwrthod pob math o gais** |
| **CYMERADWYO (APPROVE)** | **- cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CANIATÂD (CONSENT) -** | **caniatáu caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu ganiatâd hysbyseb** |
| **BARNU (DEEMED)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD (NO OBJ)** | **- dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal gadwraeth** |
| **NID YW'N OFYNNOL (NOT REQ)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig** |
| **PENDERFYNWYD (DETERMIN)** | **- penderfynwyd nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth o flaen llaw neu'n cael ei ganiatáu pan benderfynir ar y cais (rhai gweithiau telecom a gwaith amaethyddol penodol)** |
| **DATBLYGIAD A GANIATEIR (P DEV)** | **- canfuwyd fod y cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais** |
| **TYNNWYD YN ÔL (WDN)** | **- tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS (INVALID)** | **- canfuwyd fod y cais yn annilys** |
| **ARDYSTIO (CERTIFY)** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithlon** |
| **G ARDYSTIO (RCERTIFY)** | **- gwrthodwyd cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

COPIAU ATODIADAU AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD